

# RHAGFYR 2019 AC IONAWR 2020



**St David's Hall  
Neuadd Dewi Sant**



**ANTON AC ERIN**  
Dance Those Magical  
Movies

SUL 26 IONAWR 3.00PM

# Ar fynd

## RHAGFYR

Sul 1	3.00pm	<b>Now! That's What I Call the 80s</b>
Llun 2	7.00pm	<b>Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr</b> Cyngerdd Mawreddog y Nadolig
Mawrth 3	7.30pm	<b>Manchester Camerata a Craig Ogden</b>
Mercher 4	7.30pm	<b>The Rat Pack at Christmas</b>
Iau 5	7.30pm	<b>The Bootleg Beatles mewn Cyngerdd</b>
Gwener 6	1.00pm	<b>Cyngerdd Awr Ginio</b> Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Pres y Nadolig
	7.30pm	<b>Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd</b> Chwarter Canrif o Noson yn y Pictiwrs
Sadwrn 7	3.00pm	<b>Addewid y Nadolig</b>
Sul 8	3.00pm	<b>City Voices Cardiff</b>
Mawrth 10	7.00pm	<b>Sir Caerdydd a Bro Morgannwg</b> Stondin Nadolig y Gwasanaeth Cerddoriaeth
Mercher 11	7.30pm	<b>Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru</b> Handel Messiah
Iau 12	7.30pm	<b>Cyngerdd Nadolig o Gerddoriaeth Dymhorol a Charolau</b> er budd Apêl Arch Noa
Gwener 13	7.30pm	<b>Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC</b> Dathlu'r Nadolig
Sadwrn 14 & Llun 16	10.30am & 12.30pm	<b>Bert &amp; Cherry's Christmas Plum Pudding</b> Lefel 1
Sadwrn 14	3.00pm	<b>Carolau i'r Nadolig</b>
Sul 15	3.00pm	<b>The Sixteen</b>
Llun 16	Drysau 7.00pm	<b>The Overtones</b> Parti Nadolig 2019
Mawrth 17	Drysau 7.00pm	<b>Björn Again</b>
Iau 19 – Gwener 20	Amryw Oriau	<b>Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia</b> Coppélia
Sadwrn 21 – Mawrth 24	Amryw Oriau	<b>Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia</b> The Nutcracker
Gwener 27 – Mawrth 31	Amryw Oriau	<b>Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia</b> Swan Lake

CARDIFF  
CAERDYDD  
www.visitcardiff.com



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



**Swyddfa Docynnau**  
**029 2087 8444**

Tocynnau ar lein @  
[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH

## IONAWR

Sul 5	3.00pm	<b>Gala Johann Strauss</b>
Llun 6	7.30pm	<b>I'm Sorry I Haven't a Clue</b>
Iau 9	7.30pm	<b>Sandi Toksvig Live!</b>
Gwener 10	8.00pm	<b>Paul Smith</b>
Sadwrn 11	7.30pm	<b>The Music of Prince</b> New Purple Celebration
Sul 12	4.30pm	<b>Digwyddiad Cerddorfa a Chorawl Untro Undydd</b>
Llun 13	8.00pm	<b>Rush &amp; Hartson</b> Chwedlau Pêl-droed Cymru'n Sgwrsio
Mawrth 14	1.00 pm	<b>Cyngerdd Awr Ginio</b> Lauren Zhang
	8.00pm	<b>hwyrgerdd</b> Mainly Two – George Fu & Thomas Ang Lofa L3
Iau 16	7.30pm	<b>The Johnny Cash Roadshow</b>
Gwener 17	7.30pm	<b>Back to Bacharach</b>
Sul 19	4.00pm	<b>Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru a Neuadd Dewi Sant yn cyflwyno</b> Beethoven: Cyngerdd 1808
Mawrth 21	1.00pm	<b>Cyngerdd Awr Ginio</b> Anne Marsden Thomas & Ghislaine Reece-Trapp
	8.00pm	<b>Capital City Jazz Orchestra</b> gyda'r unawdydd gwadd arbennig Nikki Iles – Lofa L3
Mercher 22	7.30pm	<b>The Classic Rock Show</b>
Gwener 24	7.30pm	<b>A Vision of Elvis</b>
Sadwrn 25	7.30pm	<b>David Baddiel</b> Trolls Not The Dolls
Sul 26	3.00pm	<b>Anton ac Erin</b> Dance Those Magical Movies
Mawrth 28	7.30pm	<b>Martyn Joseph</b>
Iau 30	7.30pm	<b>Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd</b>
Gwener 31	7.30pm	<b>Michael® Starring Ben</b>



**Yn Wyrdd Amdani** – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

### DYDDIADAU GWERTHU

Mae tocynnau i'r digwyddiadau yma ar werth ar y dyddiadau sy'n dilyn onibai bod cofnodion unigol yn dweud Ar Werth Yn Awr:

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant –  
Mercher 2 Hydref.  
Y Cyhoedd – Iau 10 Hydref.

### Trydar

Rydym wrth ein bodd o weld eich sylwadau Trydar a Gweplyfr a hyfryd o beth ydi bod arnoch eisiau dweud wrth bobol eich bod yn cael y fath hwyl. Ond, er mwyn aelodau eraill o'r gynulleidfa, da chi defnyddiwch ffonau symudol a dyfeisiau'r rhyngwlad yn yr egwyl neu cyn ac ar ôl y cyngerdd. Dylai ffonau symudol a dyfeisiau eraill i gyd gael eu diffodd yn ystod y perfformiad ei hun. Diolch!



## Dewch i Ni Gadw Mewn Cysylltiad

Ymunwch â'n rhestr e-newyddion i fod y cyntaf i gael hanes sioeau newydd, archebu ymlaen llaw ac i gael disgowntiau a chynigion arbennig.

Does rhaid i chi ond mynd at ein gwefan yn [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk) a rhoi'ch e-bost yn y blwch ar y chwith.

Allai dim byd fod yn haws a gallwch ddad-danysgrifio pryd mynnwch chi.

**MEYSYDD PARCIO CYFAGOS**  
Mae meysydd parcio canol y ddinas yn agos at yr oedfan ac mae llefydd parcio ar y stryd o gwmpas y ganolfan ddinesig am £4.00\* ar ôl 6.00 yr hwyr  
\*yn gywir ar adeg argraffu



### PAWB AT Y SEDD Y BO

Gewch chi bellach ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch chi'n codi tocynnau ar lein.



Gweler manylion cynllun hynt ar dudalen 32.



Mae Neuadd Dewi Sant yn eiddo, dan nawdd a dan reolaeth Cyngor Caerdydd.



Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia, Björn Again, Now That's What I Call the 80s, Bert & Cherry's Christmas Plum Pudding, Sandi Toksvig

# Cynnwys

**02-03**

## Dan sylw

Digwyddiadau Actifyddion Artistig a manylion ein Loffa Jin ar Lefel 4.

**04-06**

## Profile

Mae'n dymor Bale'r Nadolig arnon ni – tri bale hudol i'ch syfrdanuu a'ch swyno.

Rhowch adloniant byw yn anrheg – cymaint o ddewis i bawb ar eich rhestr y Nadolig yma.

**07-29**

## Ar Fynd

Manylion yr holl ddigwyddiadau tan gamp yn y Neuadd ym misoedd Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020 a Maes o Law.

**30-32**

## Gwybodaeth am Godi Tocynnau

Sut i godi'ch tocynnau a manylion ein disgowntiau.



Dilynwch ni ar Twitter:  
[twitter.com/NeuaddDewiSant](https://twitter.com/NeuaddDewiSant)

Rydym ni ar Facebook:  
[www.facebook.com/NeuaddDewiSant](https://www.facebook.com/NeuaddDewiSant)

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost. Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

## Y LOLFA JIN

### Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus ar Lefel 4 ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm.

Champagne, gwin blasus a chwrw crefft, sioe wych o ddiodydd ysgafn heb sôn am dros ddeugain math o jin o bedwar ban byd:

Cwmni Suntory chwedlonol Japan sy'n gwneud, **Roku**, o ddail a blodau Sakura at y gwanwyn, te sencha a the gyokuro at yr haf, pupur sansho at yr hydref a chroen yuzu at y gaeaf.

Gewch chi flasur **Sharish Blue Magic** egsotig o dref ganoloesol Monsaraz ym Mhortiwgal. Mae ei liw glas godidog yn dod o rin blodyn o'r enw pysen las; pan gymysgwch chi'r jin â thonig mae'n troi i liw'n binc hudol. Ymhlith y planhigion ynddo mae'r eithinen bêr, llysiâu'r bara, gwreiddlysiâu'r angel, sinsir, sinamon, cardamom, croen lemon, mefus a mafon.

O'n nes adref mae gennym ddewis amrywiol o jin o Gymru gan gynnwys **Brecon Botanicals**, jin graenus a wneir fesul ychydig yn Nistyllfa Penderyn. Mae iddo flas perlysiâu, yr eithinen bêr ac arni flas y pridd a sbeisys y Dwyrain, awgrym o sinamon a bergamot. Mae Jin Gwymon **Dà Mhile** (a ynganir Da File), jin a wneir fesul ychydig yng Ngheredigion, wedi'i drwytho â gwymon i roi iddo naws y glannau. Ac yn Jin Sych **Cardiff Eccentric** glywch chi flas llysiâuog rhywiog rhosmari, ffenigl, suran a gwylys



### RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN

a nodau sitrws lemonwellt a'r ferfain lemonaid. Fe'i gwneir â'r eithinen bêr naturiol a dyfir ar y comin yn Llantrisant.

Mae gennym jin clasurol hefyd, yn cynnwys Tanqueray, Sipsmith Sloe Gin, Plymouth Gin a'r Bols Genever clasurol, diledryw o hen resipi gwirodydd o'r flwyddyn 1820. Mae'n hŷn na'r un jin o Loegr ac ohono mae'r ymadrodd cyffredin 'Dutch Courage' yn deillio.

Gobeithio y cawn ni'ch gweld chi yn y Lolfa Jin cyn bo hir!

## Actifyddion Artistig

### CYNLLUN CYFANSODDWRYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Ifainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr proffesiynol.

### GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm  
Mae repertoire Gamelan

Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

### SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddelfrydol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.



Am ragor o wybodaeth rhowch ganiad i 029 2087 8572 neu e-bostio a2@artsactive.org.uk

## TIME CREDITS

**Yma yn Neuadd Dewi Sant rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun Time Credits. Rhedir y cynllun gan Tempo (Spice gynt), elusen a gychwynwyd yng Nghymru yn 2008, ac sydd bellach ar waith ledled gwledydd Prydain. Cymunedau cryfion, cydlyn ydi eu gweledigaeth lle rhoir gwerth ar amser pawb.**

Ffordd ydi Time Credits o gydnabod y pethau gwyhch mae pobl yn eu gwneud yn eu cymunedau, ac amser pawb yn gyfwerth, yn gwirfoddoli yn un o'r prosiectau lawer sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys Cymru Golwg ar Fywyd Gwylt, Global Gardens, Recovery Cymru, Clwb Beicio'r Eglwys Newydd, Clybiau Gwaith yn Rhondda Cynon Taf a llawer o brosiectau

ardderchog eraill. Wedyn gellir gwario'r credydau mewn llawer o ganolfannau hamdden, yn cynnwys digwyddiadau dethol yn Neuadd Dewi Sant a'r New Theatre.

Cadwch olwg am y symbol isod i weld ymhle mae'r cynllun Time Credit ar waith\* a mynd i [timecredits.com](http://timecredits.com) i gael rhagor o wybodaeth.



\*a bwrw bod tocynnau ar gael, Amodau a thelerau ar waith

## Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia

Dros y Nadolig bydd Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia yn hyrddio i'r Ilwyfan yn Neuadd Dewi Sant mewn tri bale hudol i'ch syfrdanu a'ch swyno.

Daw bydoedd traddodiadol a digidol ynghyd yn drawiadol yn y bales y tymor yma. Mae yma wisgoedd digon o ryfeddod, llwyfannu dychmygus a setiau cyforiog o awyrgylch, wedi'u bywiogi'n hudol â chefnlen liwgar sy'n bythol newid, yn frith o effeithiau arbennig lledrithiol, i gyd yn cyfuno'n brofiad Nadolig tan gamp i'r teulu i gyd.

Meithrinodd y cwmni'r gair drwy'r gwledydd o draddodiadau perfformiadau eithriadol o raenus ac o eigion calon. Mae'r **Cyfarwyddwr Artistig Sergei Bobrov** yn hogi medr aruthrol a huodledd artistig yr unawdwy'r a'r corps de ballet, i gyfeilliant Cerddorfa Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia o dan faton y **Cyfarwyddwr Cerddorol Anatoly Tchepurnoi**, a cherddoriaeth Delibes a Tchaikovsky yn gwneud y cyfan yn fwy cyfareddol fyth.

Dewch aton ni i'r bales tymhorol gwych yma a gwneud hwn yn Nadolig i'w gofio.



**19 & 20 RHAGFYR**

### **COPPÉLIA**

Mae dol o faintioli llawn y Dr Coppélius yn bywiogi ar amrantiad yn yr hanes camadnabod ysgafnfyrd yma. Gyda choreograffi pefriol a sgôr fywiog Delibes, dyma'r bale cyntaf i'r dim i'r plantos, i deuluoedd ac i hen lofiau'r bale.



**27-31 RHAGFYR**

### **THE NUTCRACKER**

Diolch i gerddoriaeth Tchaikovsky dyma'r bale ffantasi enwocaf oll, yn digwydd ar y Noson cyn y Nadolig pan fo hud yn y gwynt – teganau'n bywiogi ar amrantiad, y Tywysog Gefail Gnau'n brwydro â Brenin y Llygod a ninnau'n cael ein cipio drwy Wlad yr Eira i fan dan gyfaredd.



**19 & 20 RHAGFYR**

### **SWAN LAKE**

Dyma fale rhamantaidd mwya'r oesoedd a sgôr atgofus fythgofiadwy Tchaikovsky yn ffrydio drwyddo. Mae'r stori ramant gyfareddol yn cyfuno â themâu cynllwynio a brad, o flaen cefnlen ogoneddus i'w ryfeddu a llyn lloergan atgofus lle mae elyrch yn nofio mewn trefn berffaith.

Prisiau yn cychwyn am £18.50 i'r perfformiadau 2.00pm. Plant hanner pris.  
Tocynnau Teulu yn cychwyn am £52.50 (Gweler y prisiau llawn a'r disgowntiau ar dudalen 15).



Peidiwch, da chi, â straffaglu â ffair a ffwndwr Dolig yn y siopau – mae gennym ni bopeth sydd eisiau arnoch – yn anrhegion gwych, i gyd wedi'u lapio ac yn barod i fynd.

Does dim byd tebyg i berfformiad byw – mae'n aros yn y cof hyd byth. Ac am hydoedd wedyn gallwch ddeffro'r atgof a'r holl deimladau da sydd i'w ganlyn; mae'n anrheg ddihafal, felly gwnewch eich siopa Dolig wrth eich pwysau'n braf eleni. Mae pob tocyn anrheg yn dod gyda cherdyn rhodd arian ac amlen (cofiwch ofyn am hyn pan fyddwch chi'n prynu) felly gewch chi sbario lapio hefyd.

**Dyma ambell i awgrym ond mae yna lond gwlad at hynny ar gynnig:**

<b>Bale Nadolig</b>	19-31 Rhagfyr
<b>Anton ac Erin</b>	26 Ionawr
<b>Riverdance</b>	1-3 Mehefin

**Comedi – dewis gwych o stand up (ac eistedd i lawr) yn y ddinas:**

<b>I'm Sorry I Haven't A Clue</b>	6 Ionawr
<b>Sandi Toksvig</b>	9 Ionawr
<b>Paul Smith</b>	10 Ionawr
<b>David Baddiel</b>	25 Ionawr
<b>Fascinating Aïda</b>	15 Chwefror

**Tipyn o Bopeth – amrywiaeth o berfformiadau bendigedig i ddewis o'u plith:**

<b>The Music of Prince</b>	11 Ionawr
<b>Johnny Cash Roadshow</b>	16 Ionawr
<b>Grease Mewn Cyngerdd</b>	10 Chwefror
<b>Queen Symphonic</b>	22 Chwefror
<b>Psychic Sally</b>	26 Chwefror
<b>Dick &amp; Angel</b> (o Escape to the Chateaux)	9 Mawrth
<b>Susan Boyle</b>	10 Mawrth

Tarwch heibio i'r wefan i weld manylion ein digwyddiadau byw gwfreiddiol.

SUL 1 3.00pm



## Now! That's What I Call the 80s

Mae Now! That's What I Call the 80s yn un o'r albymau detholiad werthodd orau yn hanes y siartiau.

Am y tro cyntaf un, gewch chi forio canu'ch holl hoff hits, a dawnsio a jolihotio mewn dathliad cyngerdd byw o'r albwm eiconig gorau oll o'r wyth degau!

Ymhlith y caneuon fu ar frig y siartiau mae: *Africa, Take On Me, Red Red Wine, Uptown Girl, Come On Eileen, Living On A Prayer, Girls Just Want To Have Fun, Wake Me Up Before You Go Go, Sweet Dreams (Are Made Of This)*.

**£27.50 | £37.50 | £44.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £27.50 yr un. Ar Werth yn Awr



Tudalen 32

LLUN 2 7.00pm



## Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngerdd Mawreddog y Nadolig

Gwledd Gerddorol gan gerddorion ifainc Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cyngerdd Mawreddog Nadolig yma'n addo'n deg bod yn ddigwyddiad arbennig iawn i'r gynulleidfa a'r performwyr fel ei gilydd.

Yn ogystal â chyfraniadau gan ensembles Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr bydd yma gôr yn lluo o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd ensembles Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn perfformio cyn y cyngerdd ac yn ystod yr egwyl i'ch difyrru chi.

**£9.50 | £11.50 | £13.50**

Tocynnau Mantais Safonol: pob tocyn yn y ddau fand prisiau drutaf £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

MAWRTH 3 7.30pm



## Manchester Camerata a Craig Ogden

Mae'r cyngerdd yma'n 'fwydlen flasu' wirioneddol o berlau cerddorol sy'n ymestyn dros dair canrif o draddodiad y gitâr, sy'n cyfuno repertoire henbrawf Sbaen a'r Eidal â chlasuron cyfoes a threfniannau gwych. Daw Craig Ogden â rhaglen eclectic, bersain a bywiog i'w ganlyn, ac yn gefn iddo bydd yr ensemble mentrus Manchester Camerata.

**£10.00 – £43.00**

Tocyn Platinwm: £51.50 (yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Codwch docynnau i 4-13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%. Ar Werth yn Awr Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd – 6.30pm Lefel 1. Jonathan James yn egluro ac yn trafod y rhaglen.



Tudalen 3 Tudalen 32

Tocynnau ar lein @ [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk) | 07

MERCHER 4 7.30pm



## The Rat Pack at Christmas

**Stephen Triffitt** fel Frank Sinatra  
**Mark Adams** fel Dean Martin  
**George Daniel Long** fel Sammy Davis Jr  
**The Goldiggers** a'r **Manhattan Swing Orchestra**

Yn eu holau o fawr alw amdanynt, mae'r Definitive Rat Pack yn dod â noson o glasuron yr ŵyl atoch chi, yn cynnwys *White Christmas*, *Baby It's Cold Outside*, *The Christmas Song* a *Let It Snow*, ac at hynny ffefrynnau'r oesoedd yn cynnwys *I've Got You Under My Skin*, *That's Amore*, *Mr Bojangles* a *New York, New York*.

Hefyd ar lwyfan bydd **Goldiggers** aruthrol Dean Martin a'r ensemble pedwar darn ar ddeg sy'n enwog drwy'r gwledydd, y **Manhattan Swing Orchestra**, yn dilyn perfformiadau i dai dan eu sang drwy'r byd yn grwn – dyma i chi barti Nadolig rhy dda i'w golli.

£31.00 | £32.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £31.00 yr un.

Ar Werth yn Awr



IAU 5 7.30pm



## The Bootleg Beatles mewn Cyngerdd

Mae clod y beirniaid drwy'r byd yn grwn yn dal i ddod i ran sioe Beatles benna'r byd ac iddi ei phortread pur, perffaith hyd y nodyn olaf, o daith y Ffab Ffôr drwy chwe degau'r hwyl a'r sbri. Mae yma bopeth – y gwisgoedd, y stumiau, y smaldod ffraeth a'r dillad cyfnod.

Gyda'm bach o help gan eu Pepperland Sinfonia ac yn cynnwys set arbennig i nodi hanner canmlwyddiant *Abbey Road*, siawns nad ydi'r cyngerdd aml-gyfrwng yma yn ddigwyddiad y flwyddyn sy'n rhy dda i'w golli i Benboethiaid y Beatles o bob oed.

£35.00 | £37.50

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



GWENER 6 1.00pm



## Cyngerdd Awr Ginio

Pres Nadolig Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru


**Dr Robert Childs arweinydd**

Daw'r cyngerdd poblogaidd yma sydd i'r dim i'r teulu yn ei ôl i'r Neuadd ar awr ginio eto yn heigio gan garolau traddodiadol a ffefrynnau'r tymor – does dim dau na fyddwch yn morio canu. Yr union ffordd i ddianc rhag ias y gaeaf a ffair a ffwndwr siopa Dolig!

£6.00 ymlaen llaw  
£7.00 ar y diwrnod

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

Ar Werth yn Awr



GWENER 6 7.30pm



Gareth Griffiths

## Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd

Chwarter Canrif o Noson yn y Pictiwrws

**Michael Bell MBE arweinydd**

Ers talwm byd... mewn neuadd gyngerdd ymhell bell i ffwrdd (wel, ym 1994) perfformiodd Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd yr hyn a fwriedid yn rhaglen untro o gerddoriaeth ffilm. Mae arweinydd y Gerddorfa, Michael Bell, yn un garw erioed am gerddoriaeth ffilm ac roedd am i'r Gerddorfa a chynulleidfaoedd rannu ei frwdfrydedd dros sgorau'r pictiwrws.

Ym mis Rhagfyr 2019, mae'r Gerddorfa'n dathlu chwarter canrif o Noson yn y Pictiwrws â rhai o'r teitlau mwyaf poblogaidd a'r galw mwyaf amdanynt o blith y llond gwlad a gyflwynodd dros y blynyddoedd. Gobeithio bod rhai o'ch ffefrynnau chi yma hefyd, yn cynnwys: *Star Wars (A New Hope, The Empire Strikes Back, a The Force Awakens)*, *Harry Potter*, *Pirates of the Caribbean*, *The Jungle Book*, *Ben-Hur*, *Casablanca*, *Star Trek*, *633 Squadron*, *Miss Marple*, *Chicago*, *Breakfast at Tiffany's*.

Ac at hynny *Gershwin in Hollywood* a Theyrnged i'r Cyfansoddwr Ffilm.

Dechreuwch y Dolig â'r dathliad gwych yma o gerddoriaeth dan gamp.

£8.00 – £25.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn yn y ddau fand prisiau drutaf £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30) Dan 18: £6.00 yr un (ac eithrio'r stalau a Rheng 1). Pobl ifanc 19-25 oed: £9.50 yr un (ac eithrio'r stalau a Rheng 1). Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £8.00 yr un. Ar Werth yn Awr



**SADWRN 7** 3.00pm



**SUL 8** 3.00pm



**LLUN 9** 7.30pm



**MAWRTH 10** 7.00pm



**MERCHER 11** 7.30pm



**IAU 12** 7.30pm



## Addewid y Nadolig

Mae Addewid y Nadolig bellach yn ffordd boblogaidd o gychwyn tymor y Nadolig.

Bydd yma rywbeth i'r teulu i gyd ar y daith gerddorol yma drwy stori'r Nadolig.

Dewch yn barod i forio canu gyda Chôr Cambrensis, Côr Ieuenctid Addewid y Nadolig a Chôr Mawl Dewi Sant – a ninnau'n tynnu'r lle i lawr, i ddathlu *Immanuel* – *God with us*.

**£12.00 | £14.00**

12-16 oed, myfyrwyr, Grwpiau o 20 neu fwy: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Plant dan 12: £5.00 yr un. Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £12.00 yr un.

Dim ond un gostyngiad y tocyn. Ar Werth yn Awr

**hynt** Tudalen 32

## City Voices Cardiff

**Simon Curtis** *cyfarwyddwr cerddorol*  
**Rhiannon Pritchard** *piano*  
**Jeffery Howard** *organ*  
**City Voices Brass Ensemble**

Mae City Voices Cardiff yn eich gwahodd i ddod atyn nhw i ddathlu'r Nadolig. Felly, os ydych yn meddwl go iawn mai Dyma'r Adeg Fwyaf Bendigedig o'r Flwyddyn byddwch yn *Llawenhau â Llawenydd Mawr!* Mae yma rywbeth at ddant pawb, o'r traddodiadol i'r cyfoes – fel pob amser cymysgfa wych o genres ac arddulliau cerddorol. Hyn oll a'r cyfle bythol-boblogaidd i'r gynulleidfa forio canu *Twelve Days of Christmas!*

**£14.00**

lau na 12: £5.00 yr un. Pobl ifanc 12-18 oed: £11.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

Bydd yna raffl a chasgliad ar ran Headway Caerdydd a De-ddwyrain Cymru.



Tudalen 3

Tudalen 32

## Only Men Aloud

Merry Little Christmas

gyda'r gwesteion arbennig iawn **John Owen-Jones** a **Sophie Evans**

Dyma Only Men Aloud yn eu holau ar daith y gaeaf yma i dreulio *Merry Little Christmas* gyda'u selogion o Went i Wynedd. Bydd un o arch-sêr arobryn y West End a Broadway **John Owen-Jones** yn dod atyn nhw ac un o blant **Tonypandy Sophie Evans**, yn syth ar ôl serennu yn rhan **Glinda** yn *Wicked* yn y West End.

**£30.00 | £33.00 | £38.00**

Ar Werth yn Awr



## Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg

Stodin Nadolig

Dathlu'r Nadolig yng nghwmni disgyblion o Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg ac ysgolion o bob cwr o Gaerdydd a'r Fro, yn dwyn Llawenydd i'r Byd. Cerddorfeydd, bandiau, cantorion a chôr yn llu i godi hwyl ar dymor y Nadolig.

**£9.00 | £10.50 | £9.00**

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Myfyrwyr, Plant, Pobol dros eu 60, Hawlwyr, Pobol Anabl gofrestredig: Pob tocyn £1.00 yn rhatach.



## Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC a Cherddorfa OCC

Handel Messiah

**Christoph Poppen** *arweinydd*  
**Soraya Mafi** *soprano*  
**Madeleine Shaw** *mezzo soprano*  
**James Platt** *baswr*  
**Tristan Llŷr Griffiths** *tenor*

Daw Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru at ei gilydd unwaith eto mewn cyngerdd sy'n hanfod y Nadolig, a gwaith sydd wedi hen ennill ei blwy yn draddodiad Nadolig i gynulleidfaeodd drwy'r byd yn grwn, *Messiah* Handel.

**£15.00 – £43.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £15 yr un. Rhai gostyngiadau ar gael Ar Werth yn Awr



## Cyngerdd Nadolig o Gerddoriaeth Dymhorol a Charolau

Er budd Apêl Arch Noa

Noson o gerddoriaeth Nadolig yn rhoi llwyfan i: **Jane Watts** *organ*  
**Utganwyr Ffanffer ac ensemble Pres y Gwarchodl Cymreig**  
**Côr yn Llu Staff a Ffrindiau GIG Cymru**  
**Artist Gwadd – I'w gyhoeddi Dan arweiniad David J Davies**

**Ysgol Gynradd Ieol fydd yn cwblhau'r gymanfa.**

Cofiwch ddod â'ch llais i'ch canlyn i gefnogi'r cyngerdd Nadolig blynyddol yma i'r teulu er budd Apêl Arch Noa.

**£11.00 | £13.00 | £14.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £11.00 yr un. Ar Werth yn Awr





**GWENER 13** 7.30pm



## Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Dathlu'r Nadolig

**Pete Harrison arweinydd**

Dechreuwch y cyfnod yn dirwyn at y Nadolig â chyngherddau Dathlu'r Nadolig bythol-boblogaidd Cerddorfa'r BBC yng Nghymru, yn llawn pefriad a hwyliau da'r tymor. Pecyn pethau da o dretiau cerddorol yn cynnwys *Sleigh Ride* Leroy Anderson, 'Troika' o *Lieutenant Kijé* gan Prokofiev, 'Trepak' o *Gyfras yr Efail Gnau* gan Tchaikovsky, ac at hynny'r cyfle i forio canu cadwyn o fferynnau Nadolig y teulu i gyd!

**£15.00 – £43.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £15 yr un. Rhai gostyngiadau ar gael. Tocynnau Teulu yn cychwyn am £15.00. Ar Werth yn Awr

Tudalen 32

**SADWRN 14 & LLUN 16** 10.30am & 12.30pm



## Bert & Cherry's Christmas Plum Pudding

Trêt Dolig gan dîm y Prom Tidli: Bert, Cherry a llawer o'u ffrindiau cerddorol yn dod at ei gilydd i gael hwyl a sbri. Mae'r sioe gerddorol fyw ryngweithiol yma'n cynnwys caneuon o dri Prom Tidli poblogaidd Bert ochr yn ochr â fferynnau Dolig.

Bu Bert yn brysur yn hwylio at Dolig, mae Cherry'n dod i roi help llaw i roi'r twtshis olaf i'r addurniadau a bydd eu ffrindiau i gyd yn picio i mewn hefyd. Fel pob amser gewch chi ddisgwyl stori fywiog a llond gwlad o ganeuon gwirion i chi gael morio canu.

**£8.00**

Ar Werth yn Awr

Tudalen 32

**SADWRN 14** 3.00pm



## Cyngerdd Carolau BBC Wales

**Adrian Partington arweinydd**

**Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC**

**Aelodau o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC Côr Plant Unedig**

**Julie Doyle Cyfieithydd Iaith Arwyddo Prydeinig**

Daw cyngerdd Nadolig blynyddol BBC Wales yn ei ôl i Neuadd Dewi Sant ac ynddo ddewis o garolau poblogaidd, darlenniadau gan gyflwynwyr BBC Wales a chôr yn llu o blant ysgol gyrradd.

**£10.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £10 yr un. Tocynnau Mantais £9.00. Tocynnau Teulu yn cychwyn am £15.00.

Tocynnau ar werth 4 Tachwedd. Perfformiad gyda dehongliad Iaith Arwyddo Prydeinig.



**SUL 15** 3.00pm



## The Sixteen

Harry Christophers arweinydd

Gwledd odidog o destunau traddodiadol wedi'u cyfuno â threfniannau cerddorol yn hen a newydd a berfformir gan un o'r corau gorau yn y byd. *A Ceremony of Carols*, blodeugerdd garolau ysbrydoledig Benjamin Britten, sy'n coroni'r rhaglen dymhorol yma. Dyma'r ffordd i'r dim i gychwyn eich dathliadau Dolig.

**£25.00**

**Myfyrwyr: £5.00**

Rhai gostyngiadau ar gael: £19.00.

Ar Werth yn Awr

2.00pm – Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd yng nghwmni Jonathan James – Lefel 1.



**LLUN 16**  
Drysau 7.00pm



## The Overtones

Mae'r grŵp cytgord lleisiol lluos-blatinwm The Overtones wrth eu boddau o gyhoeddi bod y canwr a'r cyfansoddwr caneuon o Gymro Jay James wedi ymuno â'r band a'u bod yn dod i Gaerdydd y Nadolig yma. Dyma groesawu oes newydd i'r grŵp a chanddo er ei glod bum albwm yn y Deg Uchaf a naw taith yng ngwledydd Prydain a werthodd bob tocyn.

**£25.50 | £32.50 | £41.50**

**VIP: £102.00**

Ar Werth yn Awr



**MAWRTH 17**  
Drysau 7.00pm



## Björn Again

Yn perfformio Hits Mwyaf ABBA

Yn dilyn taith eu dengmlwyddiant ar hugain y llynedd, a werthodd bob tocyn, a'u set yn Ynys Wydrin, mae Björn Again ar daith yng ngwledydd Prydain yn perfformio hits mwyaf Abba.

Ym Melbourne ym 1988 y creodd a sylfaenodd Rod Stephen y sioe sy'n fawr ei chlod drwy'r gwledydd. Yn barodi ABBA ddychanol, ysgafnryd, dros ysgwydd y cynlluniwyd y sioe ond buan y magodd safle cwlt drwy'r byd yn grwn a chydnyblyddiddi gychwyn yr adfywiad ABBA ar ei liwt ei hun, a epiliodd *Abba Gold*, *Muriel's Wedding* a *Mamma Mia!*

**£28.00 | £38.00 | VIP: £68.00**

(disgownt 10% ar docynnau VIP i grwpiau o 10 neu fwy). Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £28.00 yr un. Ar Werth yn Awr

Tudalen 32

Yn dilyn tymor aruthrol yn 2018 daw cwmni bale mawr ei glod Rwsia yn ei ôl ac i'w ganlyn tri bale swynol ac iddyn nhw setiau hudol fydd yn eich cipio i fyd hud a lledrith bendigedig!

Perfformir gan  
**Fale Gwladol Rwsiaidd Siberia**

I gyfeiliant  
**Cerddorfa Bale Gwladol Rwsia**



## Coppélia

Iau 19 7.00 pm  
Gwener 20 2.00pm & 7.00pm

Mae gan bob tegan ei stori, yn enwedig yn y gomedï gyfeiliorni swynol yma, yn gyfuniad ffraeth o giamocs ac abracadabra, sy'n digwydd mewn gweithdy saer doliau. Mae'r hanes ysgafnfyd yma, hanes cam-adnabod a chariadon dryslyd, yn dilyn y ferch ddireidus Swaniilda, ei chariadfab byrbwyll Franz a'r saer doliau hynod y Dr Coppelius, a choreograffi pefriog a sgôr fyw Delibes yn eu bywiogi. Mae *Coppélia* i'r dim i'r rheini sy'n mynd i'r bale am y tro cyntaf, i deuluoedd ac i bawb sydd rhyngddyn nhw.

Meddai'r beirniaid... *"Dancing was sharp, precise and light of foot throughout..."*



## The Nutcracker

Sadwrn 21 2.00pm & 5:30pm  
Sul 22 2.00pm & 5:30pm  
Llun 23 2.00pm & 7.00pm  
Mawrth 24 2.00pm

A hithau'n nosi ar Noswyl Nadolig y cychwynna hwn, y bale ffantasi enwocaf oll i'r teulu i gyd. A phlu eira'n disgyn y tu allan, mae gwrid cynnes y tân agored yn gyrru cysgodion neidiol ar draws cangau'r goeden Nadolig a'r holl anrhegion oddi tani. Ar ben hanner nos cawn ein sgubo ymaith i fyd hud a lledrith lle nad oes dim byd yn union fel yr ymddengys: doliau tegan yn dod yn fyw ar amrantiad, Brenin y Llygod a'i fyddin yn brwydro â'r Tywysog Gefail Gnau ac awn ninnau ar daith drwy Wlad yr Eira i fan dan gyfaredd lle mae'r hud yn cychwyn go iawn...

Meddai'r beirniaid... *"The scenery turned the stage into a winter wonderland"*



## Swan Lake

Gwener 27 2.00pm & 7.00pm  
Sadwrn 28 2.00pm & 5:30pm  
Sul 29 2.00pm & 5:30pm  
Llun 30 2.00pm & 7.00pm  
Mawrth 31 2.00pm

Dyma fale rhamantaidd mwya'r oesoedd a sgôr atgofus fythgofiadwy Tchaikovsky yn ffrydio drwyddo. O ysblander trawiadol neuadd ddawns y Palas i'r llyn lloergan lle mae elyrch yn nofio mewn trefn berffaith, mae yn yr hanes cymhellol yma, stori carwriaeth drasig, bopeth a ddymunech chi. O Odile, y demtwaig yn ei sidanwe ddu yn denu'r Tywysog drwy droelli'n gyfareddol gywir, hyd at burdeb dan gyfaredd brenhines yr elyrch, Odette, yn crynu gan ddwyster teimlad, mae rôl ddeublyg Odette/Odile ar frig yr heriau technegol ym myd bale y mae'n rhaid eu gweld.

Meddai'r beirniaid... *"The production is a triumph"*



## Prisiau Tocynnau

### Perfformiadau 2.00pm

Oedolyn: £18.50 – £40.00

Plentyn (dan 16): £9.25 – £20.00

Tocyn Teulu (2 oedolyn, 2 o blant):  
£52.50 – £114.50

Tocynnau Platinwm: £48.00

*Mae Tocynnau Platinwm yn cynnwys un o'r seddi gorau sydd ar gael yn Rheng 1, cofraglen a hufen iâ.*

### Perfformiadau 5.30pm & 7.00pm

Oedolyn: £20.00 – £42.50

Plentyn (dan 16): £10.00 – £21.25

Tocyn Teulu (2 oedolyn, 2 o blant):  
£57.00 – £120.00

Tocynnau Platinwm: £50.00

*Mae Tocynnau Platinwm yn cynnwys un o'r seddi gorau sydd ar gael yn Rheng 1, cofraglen a hufen iâ.*

## Disgowntiau a Thocynnau Mantais

*(Heb fod ar gael ar Docynnau Platinwm)*

Mae yna hyn a hyn o ddisgowntiau a thocynnau mantais ar gael i Gyfeillion Neuadd Dewi Sant, myfyrwyr, pobol dros eu 60, pobol ddi-waith, hawlwr, pobol anabl (ynghyd ag un cydymaith): pob tocyn £2.00 yn rhatach (heb fod yn berthnasol i berfformiadau am 2.00 pm ar 21 & 28 Rhagfyr). Cynnig Cŵn Caer y Cyfeillion: pob tocyn £6.00 yn rhatach o'u codi cyn 30 Hydref (£2.00 ar ôl y dyddiad yma).

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau am y pris isaf i'r perfformiad hwnnw.

Dim ond un gostyngiad y tocyn.

## Bargeinion y Bale

Codwch docynnau i unrhyw ddau fale ar yr un pryd ac arbed 20% pris llawn tocynnau oedolion. *(mae'r cynnig ac eithrio Pobl dros eu 60, plant, myfyrwyr, hawlwr, tocynnau teulu a Thocynnau Platinwm).*

## Grwpiau

Grwpiau o 10 neu fwy:

20% yn rhatach a thocyn am ddim i drefnydd y grŵp *(ac eithrio Tocynnau Platinwm).*

Ar Werth yn Awr

SUL 5 3.00pm



## Gala Johann Strauss

Johann Strauss Dancers  
yng ngwisgoedd godidog  
y cyfnod

Johann Strauss Orchestra

John Rigby *arweinydd*  
Lizzie Holmes *soprano*

Pnawn cyfareddol o gerddoriaeth atgofus, dawns wych a gynau'n tonni. Dewch at y Johann Strauss Orchestra a'r Johann Strauss Dancers i'w gweld yn perfformio detholiad bendigedig o'ch hoff waltziau a polkas gan y teulu Strauss a'u ffrindiau.

Yn cynnwys: Blue Danube Waltz, Radetzky March, Tales from the Vienna Woods, Tritsch Tratsch Polka.

**£18.00 – £39.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £18.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

LLUN 6 7.30pm



## I'm Sorry I Haven't a Clue

Y DAITH LWYFAN  
SWYDDOGOL

Yn 2020 daw sioe Radio fawr ei gwobr y BBC – yn ei geiriau ei hun “the antidote to panel games” – yn ei hôl i'r llwyfan ar daith sy'n gwerthu pob tocyn bob gafael. Dewch at Tim Brooke-Taylor, Tony Hawks, Miles Jupp, Rory Bremner a'r llywydd Jack Dee i noson rhy dda i'w cholli o lol botas maip ysbrydoledig. Colin Sell sy'n cyfeilio ar y piano.

*'Whether the teams are singing the words of one song to the tune of another, making up serial rhymes or entering the mythic maze of Mornington Crescent, they have now become the National Theatre of fun.'*

Gillian Reynolds, Daily Telegraph

**£30.00**

Ar Werth yn Awr

hynt  
Tudalen 32

IAU 9 7.30pm



## Sandi Toksvig Live!

Taith National Trevor

Yn nhyb Sandi mae'r enw 'National Treasure' braidd yn embaras ac mae wedi penderfynu, yn hytrach, bod yn National Trevor – yn hanner gwall argraffu, yn hanner digrifwraig, nofelydd, actor a darlledwr o Ddaniad.

Gewch chi ddisgwyl straeon asgwrn pen llo, ffeithiau cyfareddol o ddigri, jôcs hurt bost a phobi trybeilig gan lywydd *Great British Bake Off*, *QI* a *15 to 1*. Peidiwch â disgwyl na dawnsio tap, na gwaith gwnio na'i gweld yn sefyll ar ei phen.

Canllaw Oedran 14+

**£21.50 | £26.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £21.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**GWENER 10** 8.00pm



**SADWRN 11** 7.30pm



**SUL 12** 4.30pm



**LLUN 13** 1.00pm



**MAWRTH 14** 1.00pm



**MAWRTH 14** 8.00pm



## Paul Smith

Ac Eraill

Yn dilyn ei daith genedlaethol gyntaf yn 2018 a'i gwelodd yn mynd, o fewn llai na blwyddyn, o act ar y cylch yn un o'r enwau sy'n gwerthu orau ym myd stand-up gwledydd Prydain, daw Paul Smith yn ei ôl yn ei ail sioe ar daith genedlaethol – Following.

Dewch ato, un o ffefrynnau'r dyrfa, i noson arall o chwethin llond bol. Os gweloch chi daith 2018, a ddaeth i ben mewn noson fythgofiadwy yn M&S Bank Arena, does dim dwywaith na ddowch yn eich ôl, os na weloch chi hi cofiwch beidio â'i cholli eilwaith.

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

**£20.50**

Ar Werth yn Awr



Tudalen 32

## The Music of Prince

New Purple Celebration

Dyma **New Purple Celebration**, y band oedd gynt yn mynd dan yr enw Purple Rain: A Celebration Of Prince, yn eu holau dan enw newydd sbon danlli grai ond yr un strafagansa gerddorol 'brilliantly funky' (Basingstoke Observer) yn union sydd yma, yn dathlu cerddoriaeth, bywyd a chynhyrsgaeth Prince. Gewch chi ddisgwyl gweld, clywed a theimlo'r hits gan un o hoff artistiaid yr oesoedd; *1999, Little Red Corvette, Purple Rain, Kiss, Diamonds And Pearls, U Got The Look* a llond gwlad at hynny...

**£27.00**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Grwpiau o 10-19: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 20 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Ar Werth yn Awr

## Digwyddiad Cerddorfa a Chorawl Untro Undydd

Mae arnom angen canwyr unrhyw offeryn cerddorfaol (a'r sacsoffonau) Gradd 5/6 neu'n uwch i ymuno â'r gerddorfa gyfun yma. Dim clyweliadau! Mae arnom hefyd angen cantorion i'r Corws a chantorion côr/oratorio profiadol i helpu i arwain yr adrannau. Croeso cynnes i gantorion yr un mor frwdfrydig ond dibrofiad. Neu dewch i'r gynulleidfa, clywed y corws a'r gerddorfa enfawr yma a morio canu *Cwm Rhondda* a ffefrynnau corawl eraill.

**Tocynnau Am Ddim**

Croeso i gyfraniadau gwirfoddol – yr holl elw'n mynd i Ymchwil Canser y DU.

## Rush & Hartson

Chwedlau Pêl-droed Cymru'n Sgwrsio

Llywyddir gan Perry Groves o talkSPORT

A hwythau'n flaenwyr tan gamp y tîm cenedlaethol, mae Ian Rush a John Hartson yn trafod eu gyrfaedd disglair – y gemau, straeon y stafell wisgo a'r maes hyfforddi, rheolwyr, ffræon a rhagor.

A Perry Groves o talkSPORT yn llywyddu, maen nhw'n rhannu eu hatgofion heb flewyn ar dafod am fod yn geffylau blaen y Dreigiau enfawr.

Bydd cyfle i holi yn ystod y noswaith.

**£23.95 | £29.45 | £31.45**  
**£57.95**

Mae ychydig iawn o docynnau VIP ar gael sy'n cynnwys cwrdd a chyfarch a chyfle i dynnu llun cyn y sioe. Cyfeillion Neuadd Dewi Sant: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Ar Werth yn Awr



Tudalen 32



Tudalen 3

## Cyngerdd Awr Ginio

Lauren Zhang – piano

Yn 2018 enillodd Lauren Zhang Gystadleuaeth Cerddor Ifanc y BBC. Cafodd ei pherfformiad o Ail Concerto Piano Prokofiev gyda'r City of Birmingham Symphony Orchestra dan arweiniad Mark Wigglesworth ei ddarlledu'n fyw ar BBC4 a BBC Radio 3 a chael croeso gan feirniaid ar hyd ac ar led. Aeth yn ei blaen i wneud ei début yn y BBC Proms ac mae galw mawr amdani'n unawdydd ledled gwledydd Prydain ac ymhellach draw.

**£6.00 ymlaen llaw**  
**£7.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Ar Werth yn Awr

**1-2** blas ar gerddoriaeth



Tudalen 3



Tudalen 32

## hwyrgerdd

Mainly Two

George Fu & Thomas Ang

Dewch aton ni i raglen driphlyg o gerddoriaeth gyfoes yng nghwmni **Mainly Two** – perfformwyr repertoire i ddwy ffidil, yr unawdydd piano **George Fu** – perfformiwr brwd a chyfansoddwr cerddoriaeth gyfoes – a **Thomas Ang**, arbenigwr yng ngherddoriaeth Nikolai Kapustin.

**£10.00**

yn cynnwys naill ai cwrw o'r gasgen (dim ond bar Lefel 3), gwin, diod ysgafn neu jin a thonig.

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Myfyrwyr: pob tocyn £3.00 yn rhatach (heb y ddiod am ddim).



Tudalen 32



George Calambokidis Cymru  
The National Lottery  
Ymchwil Canser Cymru

IAU 16 7.30pm



## The Johnny Cash Roadshow

The Johnny Cash Roadshow ydi'r unig sioe mae'r teulu Cash yn ei chymeradwyo, a dyma hi yn ei hôl yn llond ei chroen yn 2020, yn sioe newydd sbon danlli grai. Eleni mae'r perfformiwr arobryn Clive John yn talu teyrnged i Yrfa Cash, y Dyn yn ei Ddu, ochr yn ochr â'i wraig eiconig June Carter a chwaraeir gan Emily Heighway, y Roadshow Horns, a'r 'Carter Sisters' mewn rhai sioeau. Fe gewch chi yma'r holl hits megis *Man in Black*, *Walk the Line*, *Ring of Fire*, *Boy Named Sue* ochr yn ochr â rhai o'r caneuon tywyllach mwy cyforiog o awyrgylch o'r Recordiadau Americanaidd diweddarach megis *The Man Comes Around* a *Hurt* sy'n gwneud y sioe eleni'n reid colli cylla o ganeuon drwy yrfa Cash, mewn noson dan gamp yn heigio o ddifyrwrch.

Mae'r Johnny Cash Roadshow yn cael cymeradwyaeth sefyll bob nos a dyma ddatiliad mwyaf a gorau Johnny Cash yn y byd heddiw – does dim dau na fyddwch yn gweiddi am ragor.

**£24.50 | £26.50**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

Ar Werth yn Awr

GWENER 17 7.30pm



## Back to Bacharach

Mae *Back to Bacharach* – sy'n fawr ei glod gan y beirniaid ac iddo gast o'r West End a dawn gerddorol wych y Magic Moments Orchestra – yn falch o gyflwyno *The Very Best of Burt Bacharach* sy'n dathlu'r 'Saer Hits' y tu ôl i un o lyfrau caneuon Americanaidd mwyaf'r Ugeinfed Ganrif.

Dyma *Back to Bacharach* yn dod â thrac sain syfrdanol y chwe degau, a'r tu hwnt, atoch chi, yn cynnwys: *Alfie*, *What The World Needs Now*, *Do You Know The Way To San Jose*, *Walk On By*, *The Look of Love* a llond gwlad at hynny.

**£25.50 | £27.00**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

Ar Werth yn Awr



SUL 19 4.00pm



## Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru a Neuadd Dewi Sant yn cyflwyno

Beethoven: Cyngerdd 1808

### Y Rhan Gyntaf

#### CERDDORFA OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

Carlo Rizzi – arweinydd  
Steven Osbourne – piano  
Alwyn Mellor – soprano  
Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC

Beethoven  
Symffoni Rhif 6 'Y Fugeiliol'  
Ah! Perfido  
Gloria, o'r Offeren yn C Ion  
Concerto Piano Rhif 4

*Saib Swper (awr a hanner)*

Yn un o uchelfannau dathliadau deucanmlwyddiant a hanner Beethoven sy'n nodi dwy ganrif a hanner ers geni Beethoven, dyma berfformiad rhy dda i'w golli, fydd yn ail-lunio'r Budd-gyngerdd Beethoven hanesyddol a roddwyd yn Fienna ym mis Rhagfyr 1808. Yn ystod pedair awr ar y noson oerias honno, heblaw am ei aria ddramatig *Ah Perfido*, perfformiadau cyntaf oedd y rhain i gyd. Daw'r drem yn ôl wych yma â chyfoeth o ddawn ryngwladol i'w chanlyn i gyflwyno peth o gerddoriaeth fwyaf eiconig Beethoven, gan gynnwys y dechreuad symffonig enwocaf a sgrifennwyd erioed.

**£10.00 – £43.00**

Tocyn Platinwm: £51.50 (yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen).

Codwch docynnau i 4 -13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%. Rhai gostyngiadau ar gael. Ar Werth yn Awr

Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd – 3.00pm Lefel 3. Jonathan James yn egluro ac yn trafod y rhaglen



### Yr Ail Ran

#### CERDDORFA A CHORWS CENEDLAETHOL CYMREIG Y BBC

Jaime Martin – arweinydd  
Llyr Williams – piano

Beethoven  
Symffoni Rhif 5  
Sanctus, o'r Offeren yn C  
Fantasia i'r piano solo  
Ffantasi Gorawl i'r piano, corws  
a cherddorfa

### Sgyrsiau cyn ac yn ystod cyngerdd

I gyfannu'r cyngerdd rydym yn falch o gyflwyno dwy sgwrs ar Beethoven. Bydd Jonathan James yn cyflwyno sgwrs cyn y cyngerdd, yn Saesneg fel arfer, a'r Dr Geraint Lewis yn dod aton ni i roi sgwrs yn y Gymraeg yn yr egwyl.

MAWRTH 21 1.00pm



MAWRTH 21 8.00pm



MERCHER 22 7.30pm



GWENER 24 7.30pm



SADWRN 25 7.30pm



## Cyngerdd Awr Ginio

**Anne Marsden Thomas & Ghislaine Reece-Trapp**

Mae Cymdeithas yr Organyddesau'n cyflwyno cyngerdd gwahanol i'r arfer. Yn y digwyddiad dwyran yma fe gewch raglen o weithiau wedi'u dethol yn arbennig sy'n para tuag awr, a Ghislaine wrth y consol ac Anne ar lwyfan. Wedyn bydd cyflwyniad trwyadl, sy'n para tua hanner awr, yn dadlennu beth sydd ynghlwm â gwneud i gerddoriaeth 'ddigwydd' pan fydd rhywun yn eistedd wrth gonsol Organ Gyngerdd mor odidog.

**£6.00 ymlaen llaw**  
**£7.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

**1-2 blas ar gerddoriaeth** 

Tudalen 32



## CCJO

gyda'r unawdydd Gwadd Arbennig Nikki Iles

Roedd Nikki Iles, y pianydd jazz a'r cyfansoddwr arobryn, yn un o aelodau sylfaenu'r Creative Jazz Orchestra oedd yn torri tir newydd – yn gweithio gydag Anthony Braxton, Mike Gibbs, Vince Mendoza a Mark-Anthony Turnage. Er mai'n bianydd y mae'n adnabyddus, mae cyfansoddi'n rhan fawr o'i bywyd cerddorol yn cynnwys darnau comisiwn i'r London Sinfonietta, Renga'r London Philharmonic a'r National Youth Jazz Orchestra (yn amlwg ei le yn y Proms).

**£17.00**

Myfyrwyr a Phlant dan 18: £10.00 yr un. Tocynnau mantais safonol eraill: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).  
Ar Werth yn Awr

 Tudalen 32



## The Classic Rock Show

Yn talu teyrnged i lawer o fawrion roc clasurol yr oesoedd, yn oreuon y byd, mae cerddorion *The Classic Rock Show* yn hyrddio mynd drwy berfformiadau chwedlonol gan Led Zeppelin, Dire Straits, Steely Dan, Eric Clapton, AC/DC, Queen, The Eagles, Fleetwood Mac a The Who a'u tebyg, a llond gwlad at hynny.

Perfformir yn fanwl gywir nodyn am nodyn, gan roi bywyd o'r newydd ar lwyfan i'r recordiadau gwreiddiol eiconig a ddiffiniodd oes, â sioe sain a goleuo gystal bob tamaid.

**£29.00**

A nifer gyfyngedig o docynnau Cylch Aur: £39.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

 Tudalen 32

## A Vision of Elvis

Mae A Vision of Elvis sy'n serennu Rob Kingsley, enillydd *Sioe Elvis Swyddogol a'r Bennaf Deyrnged Wrywaidd* Gwobrau Cenedlaethol Cerddoriaeth Deyrnged, yn adnabyddus drwy'r gwledydd am fod y cyngerdd teyrnged i Elvis Presley gorau sydd ar daith drwy'r byd heddiw.

Mae'r sioe'n dathlu Dengmlwyddiant Rob ar daith â pherfformiad gwfreiddiol newydd sbon danlli grai. Ail-grewyd yr holl wisgoedd, yr offerynnau a'r set lwyfan yn ddilys i roi naws ac egni cyngerdd byw gan Elvis, gydag addo'n deg bod y profiad gorau oll i unrhyw un o selogion Elvis.

**£27.00 | £29.00**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

Ar Werth yn Awr

 Tudalen 32

## David Baddiel

Trolls Not The Dolls

Dyma David Baddiel yn dod yn ei ôl i'r llwyfan ac i'w ganlyn sioe undyn newydd sbon danlli grai, *Trolls: Not The Dolls*. Trôls – y bobl ofnadwy sydd o fore gwyn tan nos yn sarhau ac yn enllibio dieithriaid am ddim rheswm gwell na llenwi'r bwlch enfawr yn eu heneidiau. Dyma ddoethineb y werin o ran delio â thrôls: peidiwch, da chi, â rhoi swcwr i'r bobl 'ma drwy'u hateb.

Mae hi'n ddeddf dda... ac yn un mae David Baddiel yn ei thorri'n wastad. Am fod David erioed yn gweld trôls yn heclwyr, ac os bydd digrifwr yn cael ei heclo, mae'n ddyletswydd arno beidio ag anwybyddu'r heclwr, ond ei fychanu'n ffraeth. Dros y blynyddoedd, treuliodd David gryn amser yn gwneud hyn, ac yn sgil hynny mae'n meddwl bod yma ddeunydd sioe: sioe fyddai'n dweud rhywbeth am y ffordd rydym yn byw ar hyn o bryd.

**£29.50**

Ar Werth yn Awr

 Tudalen 32

SUL 26 3.00pm



## Anton ac Erin

Dance Those Magical Movies

Mae Anton ac Erin, hoff sêr neuadd ddawns y genedl, yn eu holau ac i'w canlyn eu sioe newydd sbon danlli grai ar gyfer 2020 sef *Dance Those Magical Movies*.

Ac ynddo goreograffi bendigedig i gyfeiliant cerddoriaeth aeth â hi'n ysgubol ar y sgrîn arian, gewch chi ddisgwyl perfformiad première ar steil carped coch Hollywood gan sêr dawnsio blaenllaw gwledydd Prydain. Yn cynnwys clasuron cerddorol o *Breakfast at Tiffany's*, *Singin' In The Rain*, *Casablanca*, *The Wizard of Oz*, *The Greatest Showman*, *007*, *Titanic*, *Moulin Rouge* a llawer at hynny.

Canu byw gwefreiddiol gan un o ffefrynau'r teledu Lance Ellington, ensemble dawns digon o ryfeddod a cherddorfa 23 darn syfrdanol dan arweiniad yr arweinydd Richard Balcombe sy'n cwblhau'r gymanfa benigamp ar y daith wych yma yn 2020.

**£30.00 | £38.50 | £44.50 | £51.50**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £30.00 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: 20% yn rhatach.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

MAWRTH 28 7.30pm



## Martyn Joseph

Meddyliwch am bopeth wyddoch chi am ganwyr-gyfansoddwyr...a'i rwygo'n dipiau mân. O un dyn a gitâr mae Martyn Joseph yn creu perfformiad ac iddo sain bellgyrhaeddol enfawr sy'n egniol, yn gymhellol ac yn angerddol. Mae ganddo ddawn brin, sef gallu llafaru â'r enaid â geiriau cyfleugar a dwysbigol ei ganeuon ac mae ei yrfa ar fynd ers dros ddeng mlynedd ar hugain, deuddeg albwm ar hugain, gwerthiannau recordiau dros hanner miliwn a miloedd o berfformiadau byw.

**£18.50 ymlaen llaw**

**£19.50 ar y diwrnod**

**lau na 16: £5.00 yr un**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach – ac eithrio Plant dan 16 (gweler tudalen 30). Aelodau REACT: £10.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

IAU 30 7.30pm



## Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd

**Eva Stegeman cyfarwyddwr**  
**Benjamin Goldscheider corn**

**Holst St Paul's Suite**

**Mozart Concerto Corn Rhif 4 ym meddalnod E**

**Mozart Rondo i'r Corn**

**Tchaikovsky Galargan i'r Tannau**

**Haydn Symffoni Rhif 49 'La Passione'**

Mae Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd yn cyfuno ceinder Clasurol a thynnerwch Rhamantaidd. Dan gyfarwyddyd y ffidler o'r Iseldiroedd Eva Stegeman, bydd un o sêr ddydd a ddaw Benjamin Goldscheider, un o'r terfynwyr yng Nghystadleuaeth BBC Cerddor Ifanc y Flwyddyn 2016, yn ymuno â'r gerddorfa siambr gydwladol adnabyddus yma.

**£10.00 – £43.00**

Tocyn Platinwm: £51.50 (yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Codwch docynnau i 4-13 o gyngherddau yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol ac arbed hyd at 30%.

Rhai gostyngiadau ar gael.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32



GWENER 31 7.30pm



## Michael® Starring Ben

The Magic of Michael Jackson

Ben Bowman, seren deyrnged Michael Jackson orau oll gwledydd Prydain, sy'n serennu yn y cynhyrchiad theatr ysgubol o lwyddiannus yma. Mae Ben run ffunud â Brenin Pop o ran ei bryd a gwedd a'i lais ac wedi hogi ei act mor ofalus fel bod cynulleidfaoedd yn credu go iawn eu bod yn gwyllo Michael ei hun.

Yn rhoi llwyfan i fand byw, gwisgoedd syfrdanol ac actau dawns eiconig y perfformiwr a hits mwyaf Michael Jackson a'r Jackson 5 gan gynnwys *Beat It*, *Billie Jean* a *Thriller*.

**£26.00 | £28.00 | £30.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £26.00 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

## CHWEFROR

Llun 3	7.30pm	<b>Catrin Finch &amp; Cimarrón*</b>
Mawrth 4	11.00am	<b>Cerddorfantur!*</b>
Gwener 7	7.30pm	<b>Boyzlife – Taith 2020*</b>
Sul 9	3.00pm	<b>Passion of Youth*</b>
Llun 10	7.30pm	<b>Grease Mewn Cyngerdd*</b> Y ffilm gyda Cherddorfa Fyw
Mercher 12	7.30pm	<b>Beth Hart*</b>
Iau 13	7.30pm	<b>Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ*</b>
Sul 16	8.30pm	<b>Katya &amp; The Comedy Queens*</b>
Iau 20	7.30pm	<b>The Chicago Blues Brothers*</b>
Gwener 21	7.30pm	<b>Stacey Dooley*</b>
Sadwrn 22	7.30pm	<b>Queen Symphonic*</b> – Profiad Roc a Cherddorfa
Mercher 26	7.30pm	<b>Psychic Sally*</b>
Gwener 28	Drysau 7.00pm	<b>Lighthouse Family*</b>

## MAWRTH

Sul 1	3.00pm	<b>Dygwyl Dewi*</b>
Mercher 4	7.30pm	<b>Stewart Lee*</b>
Iau 5	7.30pm	<b>Ben Fogle*</b> – Tales from the Wilderness
Gwener 6	7.30pm	<b>Armonico Consort*</b>
Sadwrn 7	7.30pm	<b>Paul Carrack*</b> Taith 2020



\* Ar Werth yn Awr

Llun 9	7.30pm	<b>Dick &amp; Angel*</b> Dare to Do It!
Mawrth 10	7.30pm	<b>Susan Boyle*</b> – The Ten Tour
Mercher 11	7.30pm	<b>Milton Jones yn Milton Impossible*</b>
Gwener 13	7.30pm	<b>Royal Philharmonic Orchestra*</b>
Sadwrn 14	8.00pm	<b>The Circus of Horrors*</b>
Sul 15	3.00pm	<b>Star Wars And Beyond*</b>
Gwener 20	7.30pm	<b>Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd*</b> Swae Opera!*
Sadwrn 21	8.00pm	<b>Ed Byrne*</b>
Sul 22	8.00pm	<b>Clannad*</b>
Llun 23	8.00pm	<b>The Boys Are Back!*</b>
Mawrth 24	7.30pm	<b>Jamie Cullum*</b> Taller 2020
Iau 26	7.30pm	<b>The Bowie Collective*</b> A Journey Into The Mind of The Rock 'n' Roll Alien
Sul 29	3.00pm	<b>Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*</b> Cyngerdd Teulu
	5.00pm	<b>Burn The Floor*</b>
Mawrth 31	8.00pm	<b>Amy Wadge*</b>

## EBRILL

Mercher 1	7.30pm	<b>Puccini – Madama Butterfly*</b>
Gwener 3	7.30pm	<b>Philharmonia Orchestra*</b>
Mercher 8	7.30pm	<b>The Sensational 60s Experience*</b>
Gwener 10	2.00pm	<b>Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC*</b>
Sadwrn 11	Drysau 7.00pm	<b>Gatecrasher Classical, Caerdydd*</b>
Mawrth 14	8.00pm	<b>hwyrgerdd*</b> Tabea Debus & Laefer Quartet – Lolfa L3
Iau 16	6.00pm	<b>Kidz Bop*</b> – Taith y Byd
Sul 19	7.00pm	<b>The Lost words: Spell Songs*</b>
Mercher 22	7.30pm	<b>Queen Machine Symphonic*</b> Yn rhoi llwyfan i Kerry Ellis
Sadwrn 25	Drysau 7.00pm	<b>Brendan Schaub*</b>
Sul 26	3.00pm	<b>Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru*</b>
Llun 27	8.00pm	<b>Ross Noble*</b>
Mawrth 28	8.00pm	<b>CCJO gyda'r unawdydd gwadd arbennig*</b> Enrico Tomasso – Lolfa L3

\* Ar Werth yn Awr



# Maes o Law

MAI		
Gwener 1	7.30pm	<b>The Hollies*</b>
Iau 7	7.30pm	<b>Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*</b>
Sul 10	3.00pm	<b>The Music of Judy*</b>
Mawrth 12	8.00pm	<b>hwyrgerdd*</b> Sean Shibe – Lolfa L3
Iau 14	7.30pm	<b>Chris Ramsey*</b>
Llun 18	7.30pm	<b>Aurora Orchestra*</b>

MEHEFIN		
Llun 1 – Mercher 3	7.30pm	<b>Riverdance*</b> Sioe Newydd y Chwarter Canmlwyddiant
Sadwrn 6	7.30pm	<b>Royal Liverpool Philharmonia Orchestra*</b>
Iau 18	7.30pm	<b>Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*</b>

GORFFENNAF		
Gwener 10	8.00pm	<b>Côr a Cherddorfa'r Tabernacl*</b> (gwahoddiad yn unig)

HYDREF		
Sadwrn 3	8.00pm	<b>Jimmy Carr*</b>
Mawrth 20	8.00pm	<b>Jason Donovan*</b>

**GOK WAN  
MIKE DOYLE CERI DUPREE**

**CINDERELLA**  
THE FAIRY GODMOTHER OF ALL PANTOMIMES

**PHIL BUTLER**

7 DEC 2019 - 12 JAN 2020  
7 RHAG 2019 - 12 ION 2020

[newtheatrecardiff.co.uk](http://newtheatrecardiff.co.uk)  
029 2087 8889

NEW THEATRE  
1822



## Cadwch Mewn Cysylltiad ac Mewn Cywair – Dewch yn Gyfeillion Pennaf!

Gewch chi fod yn un o'r cyntaf i wybod be sydd ar fynd, cael y llyfryn yn boeth o'r wasg a chael blaenoriaeth yn codi tocynnau a gostyngiadau'r Cyfeillion am £20 y flwyddyn (£25 os oes arnoch eisiau cael y llyfryn drwy'r post).

Llenwch y ffurflen gais a dechrau mwynhau manteision bod yn un o'n Cyfeillion! benefits of being a Friend of ours!

### FFURFLEN GAIS CYFEILLION NEUADD DEWI SANT

Enw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Cod Post: \_\_\_\_\_

Teleffon (yn ystod y dydd): \_\_\_\_\_

Teleffon (gyda'r nos): \_\_\_\_\_

Cofiwch roi cyfeiriad e-bost i ni fel y gallwn roi gwybod i chi'n syth pan fydd sioeau newydd ar werth rhwng llyfrynau.

Ebost: \_\_\_\_\_

Taliad (ticiwch fel y bo'n briodol  
Rwy'n amgáu siec / archeb bost am £20/£25 (dilwch yn ôl y gofyn) yn daladwy i Gyngor Caerdydd.  
Codwch £20/£25 (dangoswch y swm gofynnol) ar fy ngherdyn

Mastercard  Visa  Switch  Delta

Cod Sicrwydd   
(y tri rhif olaf ar gefn eich cerdyn)

Rhif y Cerdyn:

Dyddiad Cychwyn: \_\_\_\_\_

Dyddiad Terfyn: \_\_\_\_\_

Rhif cyhoeddi (Switch yn unig) \_\_\_\_\_

Llofnod Deiliad y Cerdyn \_\_\_\_\_

**Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444**  
**Codi tocynnau ar lein –**  
**www.stdavidshallcardiff.co.uk**  
Gweinyddiaeth: 029 2087 8500

Bellach gallwch ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch yn codi tocynnau ar lein.

I rai digwyddiadau, am fod cynifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni atal gwerthiannau digwyddiadau diweddarach hanner awr cyn dechrau perfformiad.

### Mae codi tocynnau yn hawdd

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn o hanner awr wedi naw tan hanner awr ar ôl dechrau'r perfformiad (neu bump o'r gloch pan does dim perfformiad) a dyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

**Teleffon** ar 029 2087 8444. Talwch yn y fan â chardiau debyd neu gredyd (efallai y bydd ffi am bobl tocyn i rai sioeau). Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa a Delta. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cardiau Solo nac Electron. Cofiwch gasglu tocynnau wedi eu talu ymlaen llaw hanner awr cyn cychwyn y perfformiad.

Mae'r llinellau teleffon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

**POST** sgrifennwch atom ni yn Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1AH gyda manylion llawn eich gofynion gan gynnwys eich dewis fan eistedd ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Cynhwyswch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a rhif teleffon yn ystod y dydd ac amgáu siec yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â chyfeiriad a stamp ar gyfer anfon eich tocynnau. Mae yna dâl o £1.00 am anfon tocynnau drwy'r post.

**Yn Wyrdd Amdani** – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

### Amdiffyn Data

Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amdiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;

- i'w rhoi i gyrrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCCD, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru – at ddiben tebyg;
- i'w rhoi i gyrrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennych. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amdiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

### Tocynnau Mantais Safonol

*Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n dangos gostyngiadau yn y panel prisiau:* Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, \*Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith), Hawlwyr, Dalwyr cardiau MAX ac Aelodau Corfforaethol. Dim ond un disgownt y ceir ei ddefnyddio ar bob tocyn ac mae gofyn prawf o safle. Cofiwch ddweud pa ddisgownt rydych yn ei hawlio pan fyddwch chi'n codi tocyn.

\* Efallai na fydd y disgownt yma'n berthnasol i rai perfformiadau.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) brynu seddi'r stalau am bris y tocyn rhataf i sioeau sy'n dangos y gostyngiad yma. Does dim dal y bydd llyfdd cadeiriau olwyn ar gael a dylid eu cadw drwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn ymorol am anghenion penodol cwsmeriaid.

### Tocynnau Myfyrwyr

Mae tocynnau £5.00 hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyffres Cyngherddau Rhyngwladol Neuadd Dewi Sant hyd at hanner awr wedi chwech ar ddiwrnod y perfformiad.

Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyrwr dilys.

### Grwpiau

Rydym yn croesawu partion o unrhyw faint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o ddeg neu fwy. Rhowch ganiad i'r Llinell Boeth Grwpiau unswydd ar 029 2087 8443

### Tocynnau Teulu

Mae Tocynnau Teulu ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae hyn yn berthnasol i Deulu o bedwar sy'n cynnwys uchafrif o ddau oedolyn a dau o blant dan 16.

### Plant

Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau lechyd a Diogelwch, bydd gofyn tocyn ar bob plentyn oed cerdded.

### Cyfeillion Neuadd Dewi Sant

Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis a blaenoriaeth yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18 y flwyddyn. Rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar

029 2087 8444 i gael rhagor o fanylion.

### Ad-Daliadau a Chyfnwidiadau

Mae Neuadd Dewi Sant yn rhoi mawr werth ar ymroddiad ei chwmeriaid yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n nadu i bobl ddod.

Gellir cyfnwidiadau tocynnau i unrhyw ddigwyddiad am yr un pris neu'n uwch (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnwidiad ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os bydd y digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynnigir tocynnau i'w cyfnwidiad yn rhan o'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim diweddarach na phedwar awr a deugain cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae tâl o £2.00 am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir na chyfnwidiad nac ailwerthu yn Neuadd Dewi Sant docynnau a godwyd drwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC.)

Fel arall derbynir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir yn gyntaf ac nad oes modd sicrhau ailwerthu. Ni allwn ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau. Cedwir 20% gwerth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r ddau wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, nid ad-dalir arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi.

Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r man prynu (e.e. Os codwyd nhw drwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd yn uniongyrchol atyn nhw).

### Hwyrddyfodiad

I osgoi amharu, dim ond pan fydd saib addas yn y perfformiad y gellir gwadael i hwyrddyfodiad ddod i mewn i'r awditoriaid. Gellir gwyllo'r cyngerdd drwy deledu cylch cyfyng yn Lolfa L3.

### Amodau gwerthu

Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglenn os oes gofyn.

Gellir gwrthod mynediad dan rhai amgylchiadau heb o anghenraid wneud ad-daliad. Cofiwch fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch nhw i ymorol eu bod yn gywir. Fel y gwel yn dda Rheolwr y Swyddfa Docynnau y mae ad-daliadau.

Cofiwch ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir na thynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

### Tâl Gwasanaeth Tocynnau

Mae tâl Gwasanaeth Tocynnau ar rai pryniannau tocynnau, sef £3.95 y pryniant felly, i'r digwyddiadau yma, dim ond £3.95 dalwch chi, waeth faint o docynnau godwch chi ar y pryd. Mae'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau yn ymorol am gost cynhyrchu eich tocynnau, prosesu eich archeb ac anfon eich tocynnau atoch chi. Mae'n amcan gennym roi gwasanaeth tan gamp i gwsmeriaid pa un a ydyn nhw'n ymweld â ni'n bersonol, yn galw ar y ffôn ynte'u rhyngweithio â ni ar lein. Bydd y tâl bychan yma am bob gwerthiant yn rhoi lle i ni ddal i wneud hyn er gwaethaf galw mwyfwy ar adnoddau gwerthfawr.

\*Bydd rhai digwyddiadau heb y Tâl Gwasanaeth Tocynnau – er enghraifft digwyddiadau a drefnir gan A2 Actifyddion Artistig ac unrhyw ddigwyddiad a chanddo'n bris drutaf £13.00 neu lai.

### Yfed Cyfrifol

A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwod, ymosoddedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynnigir dim ad-daliadau tocynnau.

# Gwybodaeth am godi tocynnau

## SUT I DDOD ATOM

Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.



A wneuch chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

## GWASANAETHAU I GWSMERIAID



Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wneuch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.



Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tocynd rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyaf hygyrch.



Mae system is-goch ar gael yn yr awdutoriw (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wneuch chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan [www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk) neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu

De Cymru, mai hyn a hyn o drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff falu.



Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhwch ganiad i'r Adran Farchnata ar **029 2087 8542**.



Mae croeso i gŵn tywys. A wneuch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.



Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiau **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwyr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i [www.hynt.co.uk](http://www.hynt.co.uk) i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.